

Strategaeth Barcio Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Parking Strategy



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

1. Rhagarweiniad	1
2. Gwybodaeth Gefndir	3
3. Polisi Parcio	5
4. Capasiti Parcio Presennol a'r Galw Amdano	6
5. Cymhariaeth â Threfi Cymharol	9
6. Data Hysbysiadau Tâl Cosb	11
7. Technoleg	14
8. Y Ddadl Economaidd dros Reoli Meysydd Parcio	18
9. Ymgynghoriad Mewnol	20
10. Cynigion y Strategaeth Barcio	22

1. Rhagarweiniad

Gan ei bod yn ardal wledig yn bennaf bydd y car yn parhau i fod yn brif ddull teithio ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau ar draws y Sir. Fodd bynnag, wrth i drefi Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) barhau i dyfu a datblygu mae dod o hyd i diroedd ar gyfer darparu meysydd parcio ynghanol trefi yn dod yn fwyfwy anodd. Mae'n hanfodol felly fod y stoc parcio bresennol yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn gwneud y defnydd gorau ohoni.

Gall strategaeth parcio ceir fod yn un o'r arfau mwyaf defnyddiol sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i gyflawni eu hamcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Bydd y Strategaeth Barcio hon yn sicrhau bod newidiadau a wneir yn y dyfodol i'r ddarpariaeth parcio yn flaengar ac yn cefnogi atyniad a bywiogrwydd economaidd y rhannau gwahanol o Sir Gaerfyrddin. Yn benodol, gall strategaeth parcio:

- Gefnogi'r economi leol (e.e. trwy ei gwneud yn rhwydd i siopwyr ac ymwelwyr ymweld â threfi marchnad Sir Gaerfyrddin) a hwyluso twf datblygu (e.e. trwy sicrhau y twf a fwriedir o ran tai a chyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin);
- Galluogi grwpiau anghenion arbennig a phobl ag anawsterau symudedd i dderbyn gwasanaethau a chyfleusterau allweddol (e.e. trwy ddarparu lleoedd parcio Bathodyn Glas addas);
- Gwella dibynadwyedd amserau teithiau i ddefnyddwyr ffyrdd (e.e. trwy gynllunio a rheoli cyfleusterau parcio ar y stryd i leihau gwrthdaro ac oedi traffig);
- Annog dulliau cynaliadwy o deithio a helpu lleihau dibyniaeth ar y car preifat (e.e. trwy osod taliadau parcio ar lefelau priodol);
- Gwella effeithlonrwydd gwasanaeth parcio'r Cyngor;
- Gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol (e.e. trwy leihau faint o dir sydd ei angen ar gyfer parcio a thrwy wella golwg strydoedd trwy orfodi cosbau parcio);
- Gwneud Sir Gaerfyrddin yn lle mwy diogel (e.e. trwy sicrhau bod meysydd parcio yn 'cael eu cynllunio'n ddiogelach');
- Codi arian ar gyfer y Cyngor er mwyn cynnal gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth (e.e. trwy ddefnyddio refeniw parcio dros ben i gynnal gwasanaethau bus anfasnachol)
- Lleihau cystadlu gwastraffus rhwng trefi yn yr is-ranbarth ehangach (e.e. trwy osod taliadau a safonau parcio ceir sydd yn fras yn gydnaws â rhai awdurdodau cyfagos).

Dylai fod yn amlwg o'r uchod fod parcio ceir yn cynnwys nifer o feysydd ac mae angen i strategaeth parcio fynd i'r afael â phob un ohonynt. Yn y bôn, mae angen i strategaeth parcio fod yn rhan annatod o system drafnidiaeth leol gynaliadwy sy'n ceisio cefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Wedi dweud yr uchod, gellir wynebu anawsterau arwyddocaol wrth geisio mabwysiadu strategaeth parcio sy'n cefnogi system drafnidiaeth leol gynaliadwy gan y ceir tyndra cynhenid yn aml rhwng amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Felly, mae'r strategaeth parcio hon yn sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogi twf economaidd a bod yn arf effeithiol i reoli'r galw er mwyn annog pobl i ddefnyddio ffyrdd cynaliadwy eraill o deithio.

2. Gwybodaeth Gefndir

Cynhyrchwyd Strategaeth Barcio bresennol CSC 'Strategaeth Barcio Integredig i Sir Gaerfyrddin' yn 2005. Ceisiodd y Strategaeth wreiddiol sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion unigolion (boed yn dibynnu ar drafndiaeth breifat neu gyhoeddus) economïau lleol a chymunedau busnes gydag anghenion yr amgylchedd. Prif nodau Strategaeth 2005, a ddatblygwyd trwy ymarferion ymgynghori mewnol ac allanol cynhwysfawr oedd;

- Bod yn gydnaws ag amcanion parcio cenedlaethol a rhanbarthol a gyda'r Polisi Trafnidiaeth Strategol yng Nghynllun Datblygu Unedol y Cyngor;
- Cyfrannu at amcanion corfforaethol eraill gan gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol, y Cynllun Cymunedol a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol;
- Hwyluso darpariaeth barcio a rheolaeth ohoni sy'n gwneud y defnydd gorau o'r stoc parcio bresennol;
- Sicrhau bod cyfleusterau parcio yn ddiogel, hygyrch a chyfleus a'u bod yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;
- Hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy trwy ddarpariaeth barcio a threfniadau prisio ar yr un pryd â chynnal hyfywedd economaidd yn y Sir.

Aeth Strategaeth 2005 ymlaen i adnabod blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu er mwyn cyflawni'r nodau allweddol a restrir uchod:

- **Blaenoriaethu lleoedd parcio arhosiad byr mewn meysydd parcio canol trefi** – mae hyn yn sicrhau y gall y nifer fwyaf o gerbydau ddefnyddio'r lle parcio mewn un diwrnod gan fod hynny'n creu budd economaidd i'r gymuned fusnes leol. Mae angen ychwanegu darpariaeth barcio arhosiad hir ar gyrion canol trefi at hynny;
- **Gwella diogelwch meysydd parcio** – mae pawb sy'n defnyddio ceir yn troi'n gerddwyr unwaith y maent wedi parcio eu ceir ac mae angen i'r amgylchedd mewn meysydd parcio fod yn ddymunol a hygyrch i ddefnyddwyr;
- **Gwella gwybodaeth mewn meysydd parcio** – mae hyn yn helpu defnyddwyr rheolaidd ac ymwelwyr trwy ddangos lle mae lleoedd parcio ar gael trwy ddarparu arddangosiadau rhyngweithiol o faint o leoedd gwag sy'n weddill. Mae hyn eto'n gwneud defnydd mwy effeithlon o stoc barcio;
- **Darparu mwy o gyfleusterau ar gyfer pobl ag anawsterau symudol** – gan gynnwys lefelau priodol o ddarpariaeth barcio mewn meysydd parcio a thrwy annog cynlluniau symudedd siop mewn canol trefi;
- **Darparu Parcio a Theithio** ar gyrion Caerfyrddin a Llanelli – ffordd effeithiol o leihau tagfeydd ar yr un pryd â darparu pwll o barcio i ddarparu ar gyfer galw dyddiol a thymhorol trwm iawn;
- **Gwella integreiddio gyda gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus** – bydd darparu cyfleusterau parcio ceir ger y prif gyfnewidfeydd bws a thrên yn annog cymudwyr ac ymwelwyr ag ardaloedd trefol i wneud mwy o ddefnydd o fysiau a threnau;

- **Defnyddio'r safonau parcio uchaf mewn datblygiadau newydd** – i sicrhau bod datblygiadau heb fod yn rhai preswyl yn cyfrannu at, ac nad ydynt yn andwyol i'r strategaeth barcio trwy ddarparu gormod neu ddim digon o leoedd parcio;
- **Darparu lleoedd parcio i fysiau a cherbydau eraill** - bydd hyn yn helpu i ddenu mwy o bobl i ymweld â Sir Gaerfyrddin mewn coetsis a gellir defnyddio'r lleoedd a neilltuir gan lorïau a charafanau yn ystod cyfnodau tawelach; a
- **Darparu cyfleusterau parcio beiciau modur a beiciau mewn meysydd parcio** – bydd hyn yn helpu annog mwy o feicio a beicio modur, ill dau yn ffyrdd cynaliadwy o deithio.

3. Polisi Parcio

Cynhaliwyd adolygiad o bolisi a chanllawiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar barcio, trafndiaeth a chynllunio defnydd tir.

- Dylid defnyddio'r safonau parcio ceir uchaf ar lefel leol a rhanbarthol er mwyn rheoli'r galw. Dylid sicrhau bod datblygiadau newydd yn darparu lefelau is o barcio nag a gafwyd yn y gorffennol yn gyffredinol. Nid yw isafswm safonau parcio yn briodol mwyach;
- Cydnabyddir fod darpariaeth barcio mewn ardaloedd gwledig yn her fawr i awdurdodau lleol. Mae dylunio da ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw parcio yn tansellio'r gallu i ddarparu trafndiaeth gyhoeddus a'r cymhelliant i gerdded neu feicio;
- Dylid ystyried gofynion y Ddeddf Teithio Llesol trwy annog cyflwyno camau penodol i ddatblygu beicio diogel, gan gynnwys llwybrau newydd neu wella rhai sy'n bod yn barod, a sicrhau cyfleusterau parcio a newid mewn datblygiadau mawrion ac mewn cyfnewidfeydd trafndiaeth;
- Dylid ystyried materion parcio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau trefn gyffredin ar gyfer darparu cyfleusterau parcio cerbydau mewn datblygiadau newydd; a
- Dylid integreiddio gwasanaethau Parcio a Theithio yn y strategaeth barcio trwy ddefnyddio safleoedd a ddynodwyd yn y Cynllun Trafndiaeth Lleol i wneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol, lleihau'r ddibyniaeth gyffredinol ar y car preifat a lleihau effaith trafndiaeth ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Cydnabyddir fod angen i'r Strategaeth hon adlewyrchu Strategaeth Drafndiaeth Cymru, Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin, y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Teithio Llesol, ac wrth wneud hynny mae'n bwysig fod amcanion y strategaeth newydd yn adlewyrchu'r egwyddorion bras canlynol a amlinellir yn y dogfennau hynny;

- Annog teithio diogelach, iachach a mwy cynaliadwy;
- Gwella cynaliadwyedd trafndiaeth trwy wella ystod ac ansawdd dewisiadau trafndiaeth, a'r ymwybyddiaeth ohonynt, gan gynnwys y rhai sy'n gwella iechyd a llesiant;
- Gwella effeithlonrwydd a dibynadwyedd symud pobl a nwyddau yn ne-orllewin Cymru a thu hwnt er mwyn cefnogi'r economi ranbarthol;
- Gwella'r integreiddio rhwng polisïau, gwasanaethau a ffyrdd o deithio yn ne-orllewin Cymru; a
- Chymryd camau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at wella ansawdd aer a lleihau'r effaith andwyol ar iechyd a newid hinsawdd gan gynnwys lleihau allyriadau carbon.

4. Capasiti Parcio Presennol a'r Galw Amdano


Dadansoddwyd y wybodaeth am werthiant tocynnau ar draws yr holl feysydd parcio a reolir gan y Cyngor Sir yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli ar gyfer dyddiau Gwener ym misoedd Awst a Rhagfyr 2016. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnig cipolwg o'r galw yn 3 prif dref y sir. Mae'r graffiau canlynol yn cymharu'r galw â chapasiti meysydd parcio.

Fel y mae'r data yng Ngraffiau 4.1 a 4.2 yn dangos mae'r meysydd parcio yn Rhydaman yn gweithredu yn uwch na'u capasiti brig ym misoedd Awst a Rhagfyr.


Ym mis Rhagfyr mae'r meysydd parcio yng Nghaerfyrddin yn gweithredu'n agos at eu capasiti, fel y gwelir yng Ngraff 4.4, ond ym mis Awst, fel y gwelir yng Ngraff 4.3, mae'n ymddangos fod digon o gapasiti i gwrdd â'r galw.

Yn ôl y wybodaeth am werthiant tocynnau mae capasiti sbâr yn Llanelli ym misoedd Awst a Rhagfyr, fel y gwelir yng Ngraffiau 4.5 a 4.6.


Graff 4.1: Galw a Chapasiti Rhydaman Awst 2016




Graff 4.2: Galw a Chapasiti Rhydaman Rhagfyr 2016




Graff 4.3: Galw a Chapasiti Caerfyrddin Awst 2016




Graff 4.4: Galw a Chapasiti Caerfyrddin Rhagfyr 2016



Graff 4.5: Galw a Chapasiti Llanelli Awst 2016



Graff 4.6: Galw a Chapasiti Llanelli Rhagfyr 2016



Ceir rhagor o wybodaeth am werthiant tocynnau yn Atodiadau B, C a D.

5. Cymhariaeth â Threfi Cymharol

Mae gan Sir Gaerfyrddin amrywiaeth eang o drefi a lleoliadau ac mae gan bob un eu nodweddion eu hunain. Mae eu materion parcio unigol yn deillio o'u lleoliad, y defnyddiau gwahanol o dir, a chyfleusterau trafnidiaeth. Wrth reoli'r galw bydd CSC yn rhoi ystyriaeth i'r swyddogaeth / math ac i nodweddion unigryw pob ardal. Bydd yr ystyriaethau hyn yn helpu penderfynu beth yw'r ffordd fwyaf priodol o reoli'r ddarpariaeth barcio a hyrwyddo pob ardal.

Mae angen i daliadau parcio sicrhau cydbwysedd rhwng dylanwadu ar ymddygiad teithio ac annog pobl i mewn i ganol trefi. Mae angen i'r trefniadau codi tâl mewn ardal adlewyrchu'r cynnyrch, o ran y gyflogaeth, manwerthu, cyfleusterau iechyd a hamdden, sydd ar gael yn y lleoliad hwnnw.

O'r dystiolaeth a gyflwynir yn Nhabl 5.1 mae'n amlwg fod y trefniadau codi tâl ar draws Sir Gaerfyrddin yn gystadleuol o'u cymharu â threfi eraill a chanddynt ddemograffeg debyg a swyddogaeth gyffelyb. Awgrymir y dylid edrych yn barhaus ar werthiant tocynnau parcio a data defnyddwyr ac y dylid cynnal ymgynghoriad ar newidiadau posib i daliadau parcio yn y dyfodol.

Mae Tabl 5.1 yn cynnig cymhariaeth o strategaethau priso meysydd parcio mewn trefi trefol a gwledig cymharol ledled Cymru.

Trefi / Maes Parcio sy'n Eiddo i'r Cyngor	Awdurdod Lleol	Arhosiad				Arhosiad					Coetsis (Trwy'r Dydd)	Prisiau Eraill / Gostyngiadau
		1awr	2awr	3aw	4awr	1awr	2awr	3awr	4awr	Trwy'r		
Y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy	Cyngor Sir Fynwy	£1.50	£3.00	£4.50	£6.00		£1.00	£1.50	£2.00	£4.00		Goraros: £5.00
Llanfair-ym-Muallt, Crucywel, Gelli Gandryll, Aberhonddu, Trefyclawdd, Rhaeadr, Y Trallwng, Llanidloes, Machynlleth	Cyngor Sir Powys	£1.00	£1.50			£0.70	£1.30	£2.50	£3.20		£5.30 (Trwy'r Dydd) £6.30 (Dros Nos)	Bathodyn Glas: Am ddim
Hwlfordd ¹	Cyngor Sir Penfro	£0.50	£0.60		£1.00	£0.50	£0.60		£1.00	£1.15		24awr: £1.15
Castell-nedd ²	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot					£1.00	£1.50	£2	£2.50	£3		Dydd Sul: £1
Abertawe	Dinas a Sir Abertawe	£1.20	£2.40	£3.50		£1.20	£2.40	£3.50	£4.50	£7.00	£10.00 (Trwy'r Dydd)	Bathodyn Glas: Gostyngiad
Caernarfon	Cyngor Gwynedd	£1.00	£2.00	£3.00	£4.00				£2.00	£5.00	£3.50 (4awr) £5.50 (Trwy'r)	Bathodyn Glas:
Pen-y-bont ar Ogor	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	£0.70	£1.50	£2.50	£6.00	£0.70		£1.50		£3.00		
Conwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy					£1.00	£2.00		£3.00	£4.50		6pm-8pm: £0.50
	CYFARTALEDDAU	£0.97	£1.82	£3.38	£4.25	£0.90*	£1.30*	£2.20*	£2.60*	£4.10*		
Caerfyrddin	Cyngor Sir Caerfyrddin	£0.50p*	£1.60	£2.20	£3.40					£2.30		
Llanelli	Cyngor Sir Caerfyrddin	£1.20	£1.60	£1.80	£2.00					£2.20		
Rhydaman, Llandeilo, Llanymddyfri, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr	Cyngor Sir Caerfyrddin	£0.70			£1.00					£1.50		

¹ Cost gyfartalog parcio arhosiad byr ac arhosiad hir ar draws Hwlfordd (heb eu cyfuno).

² Cost gyfartalog ar draws holl feysydd parcio Castell-nedd a restrwyd ar wefan CBSCPT.

*Mae Maes Parcio San Pedr yn cynnig parcio am 1 awr am 0.50c

6. Data Hysbysiadau Tâl Cosb

Cynhaliwyd dadansoddiad i werthuso data Hysbysiadau Tâl Cosb (PCN) ar gyfer Awst a Rhagfyr 2016.

Tabl 6.1: Troseddau PCN Awst 2016

		Awst 2016	
	Cyfans PCN	3 Lleoliad Uchaf (nifer y troseddau)	3 Trosedd (nifer y troseddau)
Rhydaman	50	Stryd Marged _ (13) Stryd y Parc _ (7) Maes Parcio Stryd y Gwynt _ (7)	Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (25) Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (5) Parcio ar Glirffordd lle y
Caerfyrddin	273	Maes Parcio San Pedr _ (44) Maes Parcio Heol Ioan (40) Heol Awst _ (16)	Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (72) Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (41) Parcio mewn lle parcio rhannu
Llandeilo	36	Stryd Rhosmaen _ (12) Heol Newydd _ (4) Heol Cilgant _	Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (9) Parcio mewn lloc llwytho yn ystod oriau cyfyngedig _ (9) Pharcio mewn lle parcio rhannu defnydd i drigolion _ (5)
Llanymddyfri	38	Maes Parcio'r Castell _ (19) Stryd y Berllan _ (4) Stryd y Frenhines _ (4)	Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (11) Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (8) Pharcio mewn lle parcio rhannu defnydd i drigolion (7)
Llanelli	331	Maes Parcio Stryd yr Eglwys _ (42) Maes Parcio Porth y Dwyrain _ (39) Stryd Inkerman Uchaf a Stryd Lloyd . (18 yr un)	Parcio mewn lle parcio rhannu defnydd i drigolion _ (81) Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (69) Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (48)
Castellnewydd Emlyn	9	Maes Parcio'r Mart _ (5) Stryd y Coleg _ (2) Stryd y Bont _ (2)	Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (5) Parcio'n hirach nag a ganiatawyd _ (2) Parcio mewn lle parcio dynodedig i bobl anabl a Pharcio wedi'i ostwng i lefel clirffordd .(1 yr un)
Sanclêr	3	Heol Pentre _ (2) Heol yr Orsaf _ (1)	Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (2) Parcio'n hirach nag a ganiatawyd _ (1)

Tabl 6.2: Troseddau PCN Rhagfyr 2016

Rhagfyr 2016			
	Cyfans PCN	3 Lleoliad Uchaf (nifer y troseddau)	3 Trosedd (nifer y troseddau)
Rhydaman	34	Stryd Marged _ (12) Maes Parcio Stryd y Neuadd _ (6) Cefn Stryd y Cei a Stryd y Gwynt	Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (15) Dim llwytho/dadlwytho mewn stryd gyfyngedig a Pharcio mewn lle parcio rhannu defnydd i drigolion a Pharcio
Caerfyrddin	330	Maes Parcio Heol Ioan _ (36) Maes Parcio San Pedr _ (34) Maes Parcio'r Brodyr Llwyd _ (25)	Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (84) Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (49) Parcio mewn lle parcio rhannu defnydd i drigolion (41)
Llandeilo	17	Heol Newydd _ (4) Stryd Rhosmaen _ (4) Heol Cilgant a Stryd Caerfyrddin _ (3) yr un	Pharcio mewn lle parcio rhannu defnydd i drigolion _ (5) Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (6) Dim llwytho/dadlwytho mewn stryd gyfyngedig (3)
Llanymddyfri	19	Maes Parcio Stryd y Castell _ (8) Lôn yr Ardd _ (3) Stryd Cerrig _ (3)	Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (8) Parcio mewn rhan gyfyngedig o faes parcio _ (3) Parcio'r tu allan i'r lleoedd parcio _ (3)
Llanelli	164	Maes Parcio Stryd yr Eglwys _ (34) Stryd Murray MSCP _ (16) Stryd Lloyd _ (9)	Parcio mewn MP T ac A heb docyn _ (45) Parcio mewn lle parcio rhannu defnydd i drigolion _ (31) Parcio'n hirach nag a ganiatawyd _ (18)
Castellnew ydd Emlyn	13	Stryd y Coleg _ (3) Stryd Sycamorwydden _ (3) Maes Parcio'r Mart - (2)	Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau rhagnodedig _ (5) Parcio'n hirach nag a ganiatawyd (2) Parcio'r tu allan i'r lleoedd parcio _ (2)
Sanclêr	1	Maes Parcio Sanclêr _ (1)	Parcio'r tu allan i'r lleoedd parcio _ (1)

Ar draws y Sir, ym misoedd Awst a Rhagfyr cyflwynwyd cyfanswm o 1,322 o gosbau PCN. Roedd ychydig dros eu hanner, 56%, ar gyfer troseddau yn ymwneud ag ymddygiad y gyrrwr neu ddewisiadau parcio gwael e.e; parcio mewn llociau llwytho, parcio mewn llociau anabl neu barcio mewn stryd gyfyngedig. Mae angen addysg i liniaru'r ymddygiad hwn, ond ychydig iawn ellir ei wneud o ran ymyraethau corfforol i reoli'r math yma o ymddygiad.

Cyflwynwyd y 44% arall o gosbau PCN am ymddygiad y gellid ei reoli'n well, e.e; aros yn hirach na'r amser a ganiatawyd mewn maes parcio talu ac arddangos – gellid gwaredu'r tocyn os oedd parcwyr yn gallu talu ar ddiwedd eu harhosiad. Gellid lleihau nifer yr achosion o barcio heb docyn talu ac arddangos trwy osod rhwystrau oedd yn cynhyrchu tocyn wrth ichi gyrraedd.

Mae gan dechnoleg newydd rôl allweddol i'w chwarae yn lleihau nifer y cosbau PCN a roddir am droseddau parcio lle y mae parcwyr yn torri rheolau parcio yn rheolaidd.

7. Technoleg

Dulliau talu mewn meysydd parcio

Mae CSC wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn ystyried y dewis llawn o arfau rheoli galw ac arloesi technolegol. Gall rhai fod yn fwy addas neu amserol na'i gilydd a gall fod cyfuniad o ddulliau sy'n ategu ei gilydd.

Bydd technoleg yn chwarae rôl gynyddol yn hwyluso parcio i'r defnyddiwr a'r darparwydd. Erbyn 2020 bydd gan 70% o geir newydd gyswllt rhyngwyd, mae cymdeithas yn fwy cysylltiedig nag erioed. Mae meysydd parcio yn mynd yn fwy clyfar ac mae dewis newydd o gynhyrchion rheoli technolegol yn galluogi darparwyr meysydd parcio i reoli eu hasedau mewn ffyrdd mwy effeithlon.

Mae'r canlynol yn ymyriadau posib y gallai CSC eu hystyried yn y dyfodol ynghyd â datblygiadau arloesol eraill, wrth iddynt ddod ar gael.

Talu ar y Ffôn

Mae hon yn system lle y gwneir taliad trwy ffôn (llinell ffôn awtomatig) neu trwy gymhwysiad a lawr lwythwyd ar ffôn clyfar. Mae systemau talu ar y ffôn yn ddefnyddiol gan eu bod yn cynnig dull o dalu heb arian i'r defnyddiwr. Mae talu ar y ffôn hefyd yn golygu llai o gost i gynghorau gan nad oes angen casglu arian o fesuryddion (os mai dyna'r unig ddull talu a gynigir).

Gellir defnyddio talu ar y ffôn fel yr unig ffordd o dalu neu gellir ei ddefnyddio gyda dulliau mwy traddodiadol megis talu ac arddangos. Os mai talu ar y ffôn yw'r unig ddull talu a gynigir, dylid sicrhau bod signal ffôn symudol da yn yr ardal ar gyfer defnyddwyr sy'n gwneud taliadau a swyddogion gorfodaeth sy'n gorfod gwirio taliadau talu ar y ffôn.

Mae'r manteision yn cynnwys cael gwared â'r angen i gario arian mân i dalu am barcio. Gellir defnyddio'r dechnoleg hefyd i anfon negeseuon testun atgoffa i roi gwybod i yrwyr fod eu harhosiad yn dod i ben ac i ymestyn y cyfnod parcio o bell i fyny at yr amser hiraf a ganiateir.

Technoleg Taliadau Di-gyffwrdd

Mae hyn yn golygu troi cyfleusterau talu â cherdyn 'sglodyn a rhif adnabod' yn gyfleusterau 'chwifio a thalu' digyffwrdd. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud taliad cyflymach heb yr angen am gyswllt ffôn symudol.

Prif fantais hyn yw y bydd yn gwneud taliadau yn fwy dibynadwy ac yn cynnig gwell profiad i'r cwsmer.

Adnabod Rhif Cofrestru yn Awtomatig (ANPR)

Mae technoleg ANPR yn weithrediad di-docyn. Caiff cerbydau eu gweld wrth iddynt ddod i mewn i'r maes parcio ac fe gofnodir y rhif cofrestru. Rhaid talu wrth fesurydd, gan ddefnyddio rhif cofrestru'r cerbyd, cyn mynd yn ôl i'r car. Gall y dechnoleg weithio heb orfod cael rhwystrau gan fod manylion cofrestru'r cerbyd yn cael eu cofnodi.

Mae'r system hon yn gweithio orau mewn meysydd parcio prysur gan fod y costau gosod uchel yn golygu nad yw'n system effeithiol mewn meysydd parcio llai.

Unwaith y cafodd ei gosod gall technoleg ANPR gynnig nifer fawr o wasanaethau System Cludiant Deallus, yn amrywio o ddata defnydd i ystadegau defnyddwyr amser go iawn.

Gellir defnyddio'r dechnoleg hon mewn meysydd parcio preifat yng Nghymru, ond nid oes gan awdurdodau lleol Cymru y grym i orfodi cosbau troseddau parcio hyd yn hyn.

Technoleg Cyfathrebu a Synhwyro Mewn Ceir

Gall y dechnoleg hon helpu rheoli adnoddau parcio cyn cyrraedd y gyrchfan a gall leihau tagfeydd wrth i bobl chwilio am leoedd parcio. Wrth i dechnoleg ddatblygu efallai y bydd dewis archebu a thalu am le parcio cyn cyrraedd yn bosibilrwydd.

Mae technoleg yn y car yn datblygu hefyd, trwy ddefnyddio GPS i ddod o hyd i leoedd parcio gwag. Mae hyn yn golygu y gellir cyfeirio gyrwyr i le gwag, gan leihau amser cylchdroi. Mae'r system yn gweithio trwy ddefnyddio technoleg a osodwyd yn yr heol ac sy'n anfon signal at ddefnyddwyr y system.

Er bod hwn yn arf posib arall ar gyfer rheoli galw, mae'r dechnoleg hon yn fwy addas mewn meysydd parcio prysur lle y mae'r galw am leoedd yn drwm.

Talu ar Droed

Mae'r dull codi tâl yma yn golygu cael rhwystr ar bob mynedfa ac allanfa. Rhoddir tocyn i'r defnyddiwr wrth iddynt ddod mewn i'r maes parcio (ni roddir tocyn os yw'r maes parcio'n llawn, er mwyn rheoli'r galw), ac mae angen talu wrth fesurydd cyn mynd yn ôl i'r car. Yna rhoddir y tocyn talu wedi'i ddilysu yn y peiriant wrth ymadael er mwyn agor y rhwystr.

Mae gosod rhwystrau yn ddrud a bydd yn cynyddu costau cyflwyno'r system. Nid yw'r gost ychwanegol yn debygol o gynnig unrhyw fanteision ychwanegol i ddefnyddwyr o gymharu â thalu ac arddangos neu dalu drwy ffôn neu ap. Gall rheolaeth trwy rwystr helpu i leihau'r angen i gymryd camau gorfodi; fodd bynnag, mae costau cynnal a chadw system mynediad trwy rwystr yn debygol o fod yn uchel.

Mae systemau talu ar droed yn gweithio trwy wybod faint yn union o leoedd sydd ar gael, a chofnodi symudiadau cerbydau er mwyn gwybod faint o leoedd sydd ar gael, ac mae'r wybodaeth hon yn rheoli defnyddwyr i mewn ac allan o'r maes parcio. Mae'r dull hwn o gasglu tâl yn fwy addas i feysydd parcio mawr aml-lawr.

Talu ac Arddangos

Talu ac arddangos yw'r dull traddodiadol o gasglu taliadau meysydd parcio, wrth i ddefnyddwyr brynu tocyn am gyfnod penodol wedi iddynt barcio ac arddangos y tocyn yn eu cerbyd.

Mae'r dull hwn yn ddull talu syml, hawdd i'w ddeall i ddefnyddwyr sy'n economaidd i'w osod a'i gynnal. Mae peiriannau batri talu ac arddangos yn rhatach i'w cynnal gan nad oes angen prif gyflenwad trydan.

Nid oes angen rhwystr rheoli, ond mae gweithredu talu ac arddangos yn defnyddio llawer o adnoddau a bydd yn galw am wasanaeth swyddogion Gorfodaeth Parcio Sifil. Hefyd, mae angen gwagio peiriannau talu ac arddangos yn rheolaidd.

Mae nifer o beiriannau talu ac arddangos ar gael sy'n caniatáu dulliau talu gwahanol:

- Talu gyda darnau arian yn unig (heb roi newid);
- Talu gyda darnau arian, arian parod a chardiau; a
- Chardiau yn unig – fel arfer gyda thalu ar y ffôn (llinell ffôn awtomatig) neu trwy gymhwysiad a lawr lwythwyd ar ffôn clyfar.

Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Ar hyn o bryd mae dros 110,000 o gerbydau trydan ar ffyrdd y DU, a chan fod y llywodraeth wedi cyhoeddi y gwaherddir ceir disel a phetrol o 2040 bydd y nifer yma'n codi'n ddramatig dros y 30 mlynedd nesaf.

Mae data a ddarparwyd gan Zap Map yn dangos fod 4,934 o bwyntiau gwefru cyhoeddus wedi'u gosod ar draws ffyrdd y DU mewn 7,616 lleoliad, sy'n darparu 14,105 cysylltydd. Cododd cyfanswm y cysylltwyr o 9,125 ym mis Chwefror 2016 i bron i 12,000 erbyn Ionawr 2017. Ym mis Tachwedd 2017, roedd 3.1% (430) o'r 14,105 o gysylltwyr ar gael yng Nghymru.

Gall awdurdodau lleol brynu nifer o ddatrysiadau seilwaith gwefru cerbydau trwy fframwaith Seilwaith Gwefru Cerbydau ESPO 636. Mae nifer o ddewisiadau i'w hystyried gan ddibynnu ar gyflymder y gwefru (rhwng 30 mun a 12 awr am wefriad llawn), y cyflenwad trydan sydd ar gael, y math o gerbyd sy'n cael ei wefru a faint o gerbydau sy'n cael eu gwefru ar unrhyw un adeg.

Mae Tabl 7.1 yn dangos y cyfleusterau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd.

Tabl 7.1: Cyfleusterau Gwefru Cerbydau Trydan Ar Hyn o Bryd

Lleoliad	Cyfeiriad	Math o wefru sydd ar gael	Angen taliad
Gwefru Trydan			
Maes Parcio Stryd Murray	Stryd Murray, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 1DJ	2 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Na
Parcio a Theithio Nant-y-ci	A40, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3SA	1 x 50kW 125A JEVS (CHAdeMO)	Oes
Maes Parcio'r Mart	Heol Newydd, Castell Newydd Emlyn.	2 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Na
Maes Parcio San Pedr	Stryd San Pedr, Caerfyrddin SA31 1LN	2 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Na
Gwefru Trydan Preifat			
FRF Toyota Caerfyrddin	Lôn Morfa, Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin, SA31 3AX	6 x 3kW 16A Type 2 Mennekes	Na
Gwerthwyr Renault: Gravells	Heol Pen-bre, Cydweli, Sir Gaerfyrddin, SA17 4TF	2 x 3kW 16A Type 2 Mennekes 1 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Cwsmer iaid cymwys
The Brown's	Heol y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA33 4RY	2 x 11kW 16A Tesla Type 2	Dd/B
J & J Motors Nissan	Parc Busnes Cross Hands, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 6RB	2 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Cwsmer iaid cymwys
Parc a Chastell Dinefwr (Ymddiriedolaeth Cenedlaethol)	Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA19 6RT	1 x 3kW 13A 3-Square pin 1 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Oes
Neuadd Goffa Salem	Salem, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA19 7LU	1 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Na
Parc y Scarlets	Parc Siopa Pemberton, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9UZ	2 x 11kW 16A Tesla Type 2	Dd/B
The Plash Inn	Llanfallteg, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34	1 x 7kW 32A Type 2 Mennekes	Na

Mae dulliau talu yn amrywio, ond mae'r rhan fwyaf o rwydweithiau yn mynnu eich bod yn creu cyfrif cyn eu defnyddio. Mae'n well gan rai rhwydweithiau fod gyrwyr yn defnyddio carden Adnabod Amledd Radio (RFID) ac mae eraill yn defnyddio ap ffôn clyfar, ac mae rhai'n derbyn y ddau. Mae nifer fawr o bwyntiau gwefru EV yn rhad ac am ddim i'w defnyddio, a chodir tâl penodedig ar gyfer rhai. Mae'r rhai yn tueddu bod yn dâl cyswllt, pris yn ôl amser, pris yn ôl yr ynni a ddefnyddiwyd, neu gyfuniad o'r uchod.

Dyma grynodedb o gostau penodedig posib a chyfnodau codi tâl;

- Cyflym – 7 Amser gwefru – 4-6 awr Cost Bosib £2,500
- Cyflym Amser gwefru – 1-2 awr Cost Bosib £3,000
- Cyflym iawn Amser gwefru 20-30 mun Cost Bosib £20,000

Mae costau penodedig arferol o gwmpas £5,000 am y gwefrwyr 7kW cyflym a thua £15,000 am wefrwr cyflym iawn, ond gall costau cysylltu â'r grid amrywio yn ôl y seilwaith lleol.

8. Dadl Economaidd dros Reoli Meysydd Parcio

Dylid ystyried polisi meysydd parcio yn rhan annatod o'r strategaeth drafnidiaeth gyffredinol ar gyfer ardal. Dylai ategu at nodau ac amcanion y prif ddogfennau polisi. Hefyd, mae angen i'r strategaeth barcio ystyried trefniadau parcio trefi cymharol. Mae angen cydlynu trefniadau rheoli meysydd parcio yn ofalus er mwyn osgoi colli pobl i drefi eraill mewn ardaloedd eraill.

Mae'r galw am barcio yn cael ei ddylanwadu'n bennaf gan natur, ansawdd a swyddogaeth cyfleusterau ac amwynderau ynghanol y dref. Mewn pentrefi a threfi bychain, mae'r polisi parcio yn aml yn seiliedig ar ddarparu digon o leoedd i ateb y galw. Mewn trefi mwy, mae amcanion trafnidiaeth cyffredinol lleihau tagfeydd, allyriadau niweidiol a damweiniau, a hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn diogelu hygrychedd oll yn amcanion allweddol.

Yn 2010 cynhaliodd y Transport Research Laboratory (TRL) adolygiad o gamau a pholisïau parcio ar draws gwledydd Prydain. Pwysleisiodd yr ymchwiliad bwysigrwydd parcio a phrisio, a chadarnhaodd y dylai polisïau parcio geisio defnyddio cyfleusterau parcio mewn ffordd mor effeithlon ag y bo modd trwy gysylltu parcio optimaidd gyda chyflenwad a phris. Awgrymwyd fod gormod o gyflenwad mor niweidiol â dim digon, ac mae prisiau sy'n rhy isel mor niweidiol â rhai sy'n rhy uchel.

Cadarnhaodd adroddiad y TRL fod dwy rôl i barcio:

1. Cydbwysu'r ddarpariaeth a'r galw, a
2. Defnyddio parcio i gyflawni amcanion polisi eraill megis nodau rheoli traffig er mwyn cynnig hygrychedd i fusnesau a siopwyr.

Cost Parcio

Nid mynediad i ddefnyddwyr ceir yw'r unig broblem. Rhaid cofio hefyd fater cost parcio. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chwmnïau preifat dalu eu costau wrth ddarparu meysydd parcio. Mae cynnal a chadw, rheolaeth a buddsoddiad hirdymor yn ansawdd y maes parcio oll yn ystyriaethau difrifol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Er y rhoddir llawer gormod o sylw yn y cyfryngau i brisio a gorfodaeth, mae ansawdd y maes parcio hefyd yn bwysig. Rhaid cydnabod hefyd fod meysydd parcio yn gorfod talu trethi busnes. O'r herwydd, nid yw parcio ar y stryd na pharcio oddi ar y stryd am ddim. Rhaid i'r gost gael ei thalu gan rywun, rhywle, rhywsut.

Beth Mae Cwsmeriaid ei Eisiau

Dangosodd ymchwiliad a gynhaliwyd gan MRUK (2015), a asesodd effaith taliadau parcio ar ran Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ymchwiliad a wnaed gan yr Association of Town & City Management (2014) ar arferion blaengar wrth ddarparu meysydd parcio, fod unigolion yn gwneud eu penderfyniad parcio ar sail nifer o ystyriaethau.

Tabl 8.1: Ymchwil ar beth mae cwsmeriaid ei eisiau

Safle	Ymchwil ATCM (2014)	Ymchwil MRUK (2015)
1	Lleoliad	Argaeledd lleoedd parcio
2	Diogelwch personol	Cyfngiadau ar barcio (h.y. am faint all pobl barcio)
3	Amgylchedd diogel	Agosrwydd y maes parcio at bendraw'r daith
4	Prisiau	Llif traffig
5	Mynediad rhwydd	Arwyddion
6	Dim/bron ddim ciwio	Arlwy manwerthu cyffredinol
7	Nifer y lleoedd	Arlwy manwerthu tu allan i'r dref
8	Goruchwyliaeth effeithiol	Prisiau parcio tu allan i'r dref
9	Maint y lle parcio	Pris parcio
10	Goleuo priodol	Diogeledd y maes parcio

Mae'r ymchwil yn dangos, o fewn y ddeg ystyriaeth uchaf ar gyfer parcio, fod cost meysydd parcio yn is na lluo o ffactorau eraill y mae unigolion yn eu hystyried wrth benderfynu pa faes parcio i'w ddefnyddio.

Pam Mae Angen Codi Tâl a Manteision Codi Tâl

Mae meysydd parcio yn chwarae rôl hollbwysig yn llwyddiant canol trefi. Er mwyn sicrhau hyfywedd canol trefi ledled Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol, mae'n bwysig fod CSC yn dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng y galw am barcio a chapasiti. Bydd dim digon o leoedd parcio yn arwain at fwy o barcio anghyfreithlon a thagfeydd, a bydd gormod o leoedd parcio yn andwyo ar bolisiau trafndiaeth gynaliadwy'r Cyngor, yn annog mwy o draffig ac yn lleihau faint o dir allai gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau sy'n fwy deniadol yn economaidd.

Mae'n bwysig sicrhau hefyd y darperir meysydd parcio yn y lleoliadau iawn. Mae gan bobl fusnes, siopwyr, cymudwyr, ymwelwyr a myfyrwyr anghenion gwahanol, ac mae'n hollbwysig fod meysydd parcio'n cael eu cynllunio i ddarparu ar gyfer eu nodweddion gwahanol, fel eu bod yn cael eu rhoi yn y lleoliad iawn.

9. Ymgynghoriad Mewnol

Mae nifer o fentrau a strategaethau y gallai CSC eu cyflwyno er mwyn ceisio darparu'r gymysgedd a'r cydbwysedd iawn o ran meysydd parcio. Ceisiodd y strategaeth wreiddiol sicrhau'r cydbwysedd rhwng anghenion unigolion (os ydynt yn dibynnu ar drafnidiaeth breifat neu gyhoeddus) economïau lleol a chymunedau busnes gydag anghenion yr amgylchedd. Prif amcanion Strategaeth 2005, a ddatblygwyd trwy ymarferion ymgynghori mewnol ac allanol cynhwysfawr oedd;

- Bod yn gydnaws ag amcanion parcio cenedlaethol a rhanbarthol a gyda'r Polisi Trafnidiaeth Strategol yng Nghynllun Datblygu Unedol y Cyngor;
- Cyfrannu at amcanion corfforaethol eraill gan gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol, y Cynllun Cymunedol a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol;
- Hwyluso darpariaeth barcio a rheolaeth ohoni sy'n gwneud y defnydd gorau o'r stoc parcio bresennol;
- Sicrhau bod cyfleusterau parcio yn ddiogel, hygyrch a chyfleus a'u bod yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;
- Hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy trwy ddarpariaeth barcio a threfniadau prisio ar yr un pryd â chynnal hyfywedd economaidd yn y Sir.

Hwyluswyd y nodau hyn gan y 9 blaenoriaeth a restrir yn nhabl 9.1 isod.

Cynigiodd Adroddiad Craffu yn 2016 gyfres o Ddewisiadau / Dulliau Parcio Amgen, a restrir yn nhabl 9.1.

Tabl 9.1: Blaenoriaethau Parcio 2005 o'u cymharu â Dewisiadau Parcio Amgen 2016

Blaenoriaethau Strategaeth Barcio 2005	Adroddiad Craffu 2016 Dewisiadau / Dulliau
Blaenoriaeth 1: Blaenoriaethu parcio arhosiad byr mewn meysydd parcio canol trefi	Cynyddu nifer y Dyddiau Parcio Am Ddim
Blaenoriaeth 2: Diogelwch Meysydd Parcio	Cynlluniau Talu wrth Arael
Blaenoriaeth 3: Gwybodaeth Meysydd Parcio	Cynlluniau Siopa a Gollwng
Blaenoriaeth 4: Cyfleusterau ar gyfer Pobl ag Anawsterau Symudedd	System Talu ar y Ffôn/Taliadau Di-arian
Blaenoriaeth 5: Parcio a Theithio	
Blaenoriaeth 6: Integreiddio Trafnidiaeth	
Blaenoriaeth 7: Safonau Parcio mewn Datblygiadau Newydd	
Blaenoriaeth 8: Parcio Coetsis a Cherbydau Eraill	
Blaenoriaeth 9: Cyfleusterau i Feiciau a Beiciau Modur mewn Meysydd Parcio Cyhoeddus	

Mae mwy o wybodaeth am y cynlluniau a restrir yn y tabl hwn ar gael yn Atodiadau E ac F.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori mewnol gyda thimau Cynllunio, Adfywio a Thrafnidiaeth y Cyngor Sir er mwyn sefydlu casgliad cyffredin o flaenoriaethau ynghylch parcio.

Cyflwynwyd cyfres o flaenoriaethau posib i'r grŵp. Mae Tabl 9.2 yn crynhoi'r blaenoriaethau y cytunwyd y dylid eu cynnwys yn y strategaeth ddatblygol, ac mae pennod 10 yn cynnig mwy o fanylion ar weithredu pob un ohonynt.

Tabl 9.2: Camau Blaenoriaeth

Cam Blaenoriaeth	Safle
Blaenoriaethu parcio arhosiad byr mewn meysydd parcio canol trefi	1
Diogelwch Meysydd Parcio	2
Defnyddio Technoleg	3
Gwybodaeth Meysydd Parcio	4
Integreiddio Rhyngfoddol	5
Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu	6
Safonau Parcio mewn Datblygiadau Newydd	7
Dyddiau Parcio Am Ddim	8
Cyfleusterau ar gyfer Pobl ag Anawsterau Symudedd	9
Parcio Coetsis a Cherbydau Eraill	10
Cyfleusterau i Feiciau a Beiciau Modur mewn Meysydd Parcio Cyhoeddus	11

10. Cynigion y Strategaeth Barcio

Blaenoriaeth 1: Blaenoriaethu parcio arhosiad byr mewn meysydd parcio canol trefi

Mewn ardaloedd lle y mae angen cefnogi siopwyr ac annog mwy o weithgarwch manwerthu, rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu parcio arhosiad byr. Gan gydnabod y swyddogaeth arhosiad hir y mae ein meysydd parcio yn ei chyflawni, er mwyn annog siopwyr a gweithgarwch economaidd, bydd cyfyngu am faint o amser y gall pobl barcio cyn iddynt orfod gadael eu lle parcio, neu wneud taliad ychwanegol, yn helpu sicrhau bod lleoedd gwag ar gael i siopwyr trwy gydol y dydd.

Bydd annog parcwyr arhosiad byr i wneud mwy o ddefnydd o feysydd parcio canol trefi yn golygu y gwneir defnydd mwy effeithlon o leoedd parcio a thrwy hynny yn sicrhau y gall y nifer mwyaf posib o gerbydau wneud defnydd o'r lleoedd parcio.

Gellir defnyddio rheoli am faint o amser y gall pobl barcio ynghyd â pholisïau prisio er mwyn ceisio gwneud mwy o leoedd parcio arhosiad byr ar gael yn gyson ac annog parcio arhosiad hirach mewn meysydd parcio ar gyrion canol y dref.

Cynnig :

- Lle'n briodol blaenoriaethu parcio arhosiad byr mewn meysydd parcio ynghanol trefi trwy brisio a / neu neilltuo lleoedd parcio arhosiad byr.
- Cynnal adolygiad o feysydd parcio canol trefi i sicrhau'r gymysgedd gywir o leoedd parcio arhosiad byr ac arhosiad hir
- Darparu cyfleusterau parcio arhosiad hir deniadol mewn meysydd parcio ar gyrion canol trefi sy'n annog parcio arhosiad hir trwy argaeledd a phrisio cymharol.
- Hyrwyddo gwell argaeledd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a moddau Teithio Llesol er mwyn datblygu hybiau trafndiaeth sy'n cysylltu meysydd parcio arhosiad hir â chanol trefi a chyfleoedd cyflogaeth.
- Datblygu cyfleusterau parcio priodol i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn adeiladau preswyl ynghanol trefi.
- Lle'n briodol darparu cyfleusterau gwefru cerbydau trydan cyflym iawn a lleoedd parcio arhosiad byr ar gyfer cerbydau trydan.
- Datblygu a hyrwyddo gwasanaethau Parcio a Theithio lle'n briodol.

Blaenoriaeth 2: Diogelwch Meysydd Parcio

Dywed ymchwil gan MRUK (2015), oedd yn asesu effaith taliadau parcio ceir ar ran Llywodraeth Cymru, fod diogelwch personol yn ail yn y 10 ffactor pwysicaf sy'n dylanwadu ar benderfyniad unigolyn i barcio mewn unrhyw leoliad arbennig.

Bydd maes parcio sy'n cael ei ystyried yn ddiogel a chadarn yn denu mwy o gwsmeriaid nag un sy'n cael ei ystyried yn llai diogel.

Canol trefi yw canolbwynt y gymuned a gwneir pob ymdrech i wneud i siopwyr, cymudwyr, trigolion ac ymwelwyr deimlo mor ddiogel â phosib. Mae dylunio a gosodiad ystyriol, goleuo da, amgylchedd glân, CCTV gweladwy a cherbydau yn mynd a dod yn rheolaidd oll yn ffactorau all gyfrannu at wella amgylchedd maes parcio.

Unwaith y mae gyrrwyr yn parcio eu car deuant yn gerddwyr, sy'n gallu bod yn fregus mewn amgylchedd parcio, trwy eu hymwneud â cherbydau modur a cherddwyr eraill.

Gall gwelliannau i lwybrau cerddwyr ynghyd â chymau diogelwch cyffredinol wneud gwahaniaeth sylweddol o ran gwella diogelwch cerddwyr a cherbydau mewn maes parcio.

Cynnig:

- Cynnal arfarniadau safle i ddod o hyd i ardaloedd mewn meysydd parcio cyhoeddus lle y mae cerddwyr yn fregus ac edrych ar welliannau diogelwch priodol, megis CCTV, goleuo a llwybrau cerdded.
- Cynnig am statws Maes Parcio Mwy Diogel mewn meysydd parcio cyhoeddus lle'n briodol a hysbysebu meysydd parcio lle'r enillwyd y statws hwnnw.
- Darparu llwybrau cerdded diogel a chadarn rhwng canol y dref a meysydd parcio, gan gynnwys rhai ar gyrion y dref.
- Cadw statws Maes Parcio Mwy Diogel ar gyfer pob canol tref.

Blaenoriaeth 3: Defnyddio Technoleg

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwmo i sicrhau ei fod yn ystyried y dewis llawn o arfau rheoli galw ac arloesiadau technolegol er mwyn gwella profiad yr ymwelydd. Efallai y bydd rhai mathau o dechnoleg yn fwy addas, neu amserol, nag eraill a bydd angen cyfuniad o gamau fydd yn ategu ei gilydd.

Bydd technoleg yn chwarae rôl gynyddol yn hwyluso parcio ar gyfer y defnyddiwr a'r darparydd. Erbyn 2020 bydd gan 70% o geir gyswllt rhyngryd, mae cymdeithas yn fwy cysylltiedig nag erioed, mae meysydd parcio yn dod yn fwy clyfar ac mae cyfresi newydd o gynhyrchion rheoli technolegol yn galluogi darparwyr meysydd parcio i reoli eu hasedau mewn ffyrdd mwy effeithlon.

Mae technoleg ANPR yn cynnig nifer o fanteision i'r darparydd meysydd parcio a'r gyrrwr. Gall y darparydd elwa o well ystadegau rheoli a defnyddio'r maes parcio, ac mae'r defnyddiwr yn elwa o gael mwy o hyblygrwydd a chyngor wrth ddod o hyd i'r lleoliad parcio mwyaf priodol a lleoedd parcio sydd ar gael.

Pan nad yw defnyddio technoleg ANPR yn briodol bydd y Cyngor yn edrych ar gyflwyno a hyrwyddo cyfleoedd talu di-arian trwy dulliau megis taliadau di-gyffwrdd ac Apiau sy'n galluogi defnyddwyr i gadw a thalu am le parcio cyn cyrraedd.

Mae trefn rheoli maes parcio Talu ar Droed yn golygu gosod rhwystr sy'n darparu tocyn wrth gyrraedd y maes parcio. Yna mae'r gyrrwr yn talu am barcio cyn mynd yn ôl i'r car. Mae'r system hon yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r gyrrwr ynghylch cyfnod eu harhosiad. Mae'r dull talu yma yn fwy addas ar gyfer meysydd parcio aml-lawr mawr, ac mae angen ei ystyried o ran athreiddedd y safle, profiad y defnyddiwr a'r effaith bosib ar draffig yn ciwio mewn lleoliadau canol tref sensitif.

Cynnig:

- Fod y Cyngor yn trafod y newid deddfwriaethol posib gyda Llywodraeth Cymru, ac yn amodol ar gael esboniad a'i fod yn fforddiadwy, ei fod yn bwrw ati i gyflwyno system Talu wrth Adael ANPR yn raddol mewn meysydd parcio priodol.
- Caiff dulliau talu di-arian eu hystyried lle'n briodol er mwyn hwyluso taliadau 'di-gyffwrdd'.
- Lle'n bosib, bydd Apiau parcio sy'n galluogi defnyddwyr i archebu a thalu am barcio cyn cyrraedd yn cael eu hystyried.

Blaenoriaeth 4: Gwybodaeth Meysydd Parcio

Mae cyfathrebu a thryloywder yn chwarae rôl allweddol wrth weithredu meysydd parcio yn llwyddiannus. Bydd cyfeirio gyrwyr at y maes parcio mwyaf priodol yn lleihau tagfeydd ac yn gwella'r profiad cyffredinol ynghanol y dref, yn ogystal â sicrhau bod capasiti meysydd parcio yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Mae gwefannau ac Apiau yn disodli'r dulliau traddodiadol o ddarparu gwybodaeth, a bwriedir rhoi ystyriaeth lawn i'r posibilrwydd o wneud defnydd llawn ohonynt wrth gyfathrebu. Bydd gwefan y Cyngor Sir yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a bydd yn darparu gwell gwybodaeth er mwyn hyrwyddo cyfleusterau meysydd parcio megis; pwyntiau gwefru cerbydau trydan, cyfleusterau parcio beiciau a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus.

Mae technegau arwyddion yn newid, a gall defnyddio delweddau a symbyliadau gweledol roi gwybodaeth glir a chryno i yrwyr am leoliad cyfleusterau parcio yn eu cyrchfan, a gellir defnyddio gwybodaeth amser go iawn i roi gwybodaeth am faint o leoedd parcio sydd ar gael.

Maes addawol iawn yw'r posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth amser go iawn mewn systemau GPS megis ffonau clyfar ac arfau mordwyo lloerenol, sy'n golygu fod gyrwyr yn gallu derbyn gwybodaeth barhaus wrth deithio.

Cynnig:

- Darparu arwyddion clir a chyson at bob maes parcio cyhoeddus.
- Fel lleiafswm, a lle'n ymarferol, bydd arwyddion yn cynnwys enw'r maes parcio, faint o leoedd sydd ar gael a hyd yr arhosiad.
- Lle'n briodol, defnyddir arwyddion rhyngweithiol i ddod o hyd i leoedd sydd ar gael neu i gyfeirio gyrwyr at feysydd parcio eraill.
- Gwneud mwy o ddefnydd o iconograffi ar wefan y Cyngor Sir i hyrwyddo cyfleusterau meysydd parcio megis: pwyntiau gwefru cerbydau trydan, cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus, lleoedd parcio beiciau, amserau agor a phrisiau.
- Manteisio ar ddatblygiadau technolegol o ran ffonau clyfar a systemau mordwyo lloerenol ar gyfer darparu gwybodaeth am leoedd a chyfleoedd parcio, er mwyn gwella profiad y cwsmer.
- Hyrwyddo'r wefan rhannu ceir www.sharecymru.com sy'n cael ei noddi gan y Cyngor.

Blaenoriaeth 5: Integreiddio Rhyngfoddol

Mae cyflawni strategaeth barcio lwyddiannus yn galw am agwedd holistaidd hirdymor. Ni ellir ystyried anghenion gyrwyr ar eu pen eu hunain. Mae integreiddio gwahanol ffyrdd o deithio yn allweddol er mwyn sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gynaliadwy.

Gallai ystyried cyfleusterau cyfnewidfa rhwng y car, gwasanaethau bws a thrên yn ogystal â dulliau Teithio Llesol, yn y gorsafoedd gwledig mwy yn enwedig, annog mwy o gymudo ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn trefi mwy. Mae meysydd parcio presennol gerllaw gorsafoedd rheilffordd yn cynnig cyfle da iawn i hyrwyddo cymudo rhyngfoddol, ac mae angen mwy o waith hyrwyddo ar y cyfleusterau hyn er mwyn cael mwy o bobl i'w defnyddio.

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd cerdded a beicio ar draws trefi Teithio Llesol. Er mwyn annog teithiau aml-foddol, darperir cyfleusterau parcio beiciau diogel yn y prif gyfnewidfeydd trafndiaeth.

Cynnig:

- Datblygu gwell cyfleusterau cyfnewid a chyfeirio o fewn trefi Teithio Llesol i annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.
- Ar y cyd â Network Rail, ymchwilio'r potensial o ddarparu parcio diogel a chyfleus mewn gorsafoedd rheilffordd gwledig er mwyn annog cymudo lle y bo modd.
- Archwilio'r potensial ar gyfer gwell integreiddio yng Ngorsaf Reilffordd Llanelli, yn enwedig felly o ran canol y dref a'r Pentref Llesiant.
- Cysylltu gydag awdurdodau lleol cyfagos i hyrwyddo trefniadau parcio tebyg mewn cyfnewidfeydd trafndiaeth ac annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio rhwng siroedd, yn enwedig felly at ddibenion gwaith.
- Ar y cyd â chwmnïau bysiau, ymchwilio'r potensial o ddarparu manau parcio diogel a chyfleus gerllaw'r prif lwybrau bysiau a manau aros ar gyrion canol trefi er mwyn annog pobl i drosglwyddo i'r gwasanaeth bws.

Blaenoriaeth 6: Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu

Mae Parcio a Theithio yn system effeithiol ar gyfer atal a lleihau tagfeydd traffig cyn iddynt gyrraedd canol y dref.

Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin un gwasanaeth Parcio a Theithio, yn Nant-y-ci. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg bob 30 munud rhwng 07:00 - 19:00, dydd Llun i ddydd Sadwrn. Mae parcio am ddim yn Nant-y-ci ac ar hyn o bryd mae tocyn dwyffordd i ganol tref Caerfyrddin yn costio £1.00.

Efallai y caiff cyfleusterau Parcio a Theithio ychwanegol eu hystyried mewn lleoliadau eraill ar ôl cwblhau asesiadau perthnasol WelTAG 2, 5 asesiad Model Achos, dadansoddiadau galw ac adnabod cyllid cyfalaf a referniw i'w darparu a'u cynnal.

Gall cyfleuster Parcio a Theithio llwyddiannus wneud llawer i wella'r profiad canol tref cyffredinol. Gall symud lleoedd parcio hirdymor allan o ganol trefi, a thrwy hynny ddarparu mwy o leoedd parcio arhosiad byr. Gall leihau tagfeydd ynghanol trefi ac annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.

Er mwyn gwneud Parcio a Theithio yn fwy deniadol efallai y darperir cyfleusterau ychwanegol i wella profiad cyffredinol y cwsmer. Bydd darparu lleoedd parcio beiciau diogel a chadarn yn annog mwy o Deithio Llesol, a bydd cyfleusterau parcio a gwefru cerbydau trydan yn helpu lleihau allyriadau carbon a gall gwella cysylltiadau gyda'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus helpu lleihau tagfeydd.

Mae gan Parcio a Rhannu rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni strategaeth drafnidiaeth integredig. Mae'r Cyngor Sir yn darparu cyfleusterau Parcio a Rhannu pwrpasol yn Nant-y-ci.

Cynnig:

- Yn ogystal â'r gwasanaeth Parcio a Theithio, dylid annog Parcio a Rhannu, trwy hyrwyddo www.sharecymru.com a thrwy ddarparu lleoedd ar gyfer pobl sy'n dymuno cwblhau eu teithiau trwy rannu car.
- Er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio cerbydau trydan, darperir cyfleusterau gwefru a lleoedd parcio addas ar gyfer cerbydau trydan.
- Dylid ystyried datblygu Parcio a Theithio ar y rheilffordd, trwy hyrwyddo a gwneud gwell defnydd o feysydd parcio gerllaw gorsafoedd rheilffordd.
- Rhoddir ystyriaeth i ddatblygu cyfleusterau i ddarparu lleoedd parcio am gyfnod cyfyngedig yn ystod y dydd i wersyllfaniau a charafanau ar safleoedd Parcio a Theithio.

Blaenoriaeth 7: Safonau Parcio mewn Datblygiadau Newydd

Mae gweithredu safonau uchafswm yn unol â chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn annog darparu llai o leoedd parcio a mwy o ddefnydd o ffyrdd cynaliadwy o deithio. Mae'r safonau parcio yn ceisio sicrhau trefn dryloyw a chyson wrth ddarparu lleoedd parcio, tra'n darparu fframwaith ar gyfer ystyried agweddau hygrychedd a chynaliadwyedd datblygiad newydd pan mae datblygwr yn ceisio darparu llai o leoedd parcio.

Bydd CSC yn ystyried perthnasedd safonau parcio uchafswm cenedlaethol ar gyfer datblygiadau newydd.

Bydd y safonau parcio yn cyfrannu at sylwadau a gyflwynir gan Awdurdod Priffyrdd CSC ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a dderbynnir.

Mae'n briodol ystyried y lefelau parcio a gynigir ar gyfer datblygiadau newydd yng nghyswllt strategaeth barcio'r Cyngor yn gyffredinol, gan fod hyn yn golygu y gall datblygiadau preifat a meysydd parcio cyhoeddus ddarparu rhyngddynt lefel y ddarpariaeth sydd ei hangen.

Yn 2017 roedd 5% o'r holl gerbydau newydd a werthwyd yn y DU yn rhai batri. Mae disgwyl i'r ffigwr hwn gynyddu gan fod mwy a mwy o'r prif gynhyrchwyr yn cyhoeddi cynlluniau i roi'r gorau i gynhyrchu cerbydau wedi'u tanio â thanwydd ffosil, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod y tueddiad hwn a bydd angen adlewyrchu hynny wrth ddatblygu a chyflwyno polisïau yn y dyfodol.

Cynnig:

- Gweithredir safonau parcio ar gyfer datblygiadau newydd heb fod yn rhai preswyl yn unol â'r safonau parcio a gymeradwywyd gan y Cyngor, ynghyd â chyfraniadau tuag at wella cyfleusterau trafndiaeth gynaliadwy mewn datblygiadau newydd a leolir mewn ardaloedd a chanddynt wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus da.
- Dylid ystyried codi safonau optimaidd lle y bydd cyfleusterau parcio mewn datblygiadau heb fod yn rhai preswyl ynghanol trefi ar gael i'r cyhoedd a lle y gellir eu hystyried yn rhai sy'n cyfrannu at ofynion parcio y dref yn gyffredinol.
- Dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu lleoedd parcio a'r seilwaith cysylltiol mewn datblygiadau newydd ar gyfer cerbydau trydan.

Blaenoriaeth 8: Dyddiau Parcio Am Ddim

Bydd Dyddiau parcio am ddim yn cael eu darparu gan y Cyngor Sir er mwyn rhoi hwb i fusnesau yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a busnes. Pwrpas y fenter hon yw cefnogi digwyddiadau ynghanol trefi a drefnir ac a hyrwyddir er lles y dref gyfan ac er mwyn denu mwy o bobl i ganol y dref.

Dylai digwyddiadau hyrwyddo cyfleusterau ac amwynderau ynghanol tref a denu mwy o bobl a phobl newydd. Rhaid i ddyddiau digwyddiadau gefnogi'r dref gyfan a pheidio anelu'n benodol at un sector neu fudiad.

Gan mai pwrpas y cynnig hwn yw annog gweithgarwch economaidd a denu mwy o bobl i ganol trefi, caiff y digwyddiadau hynny a drefnir yn ystod 'dyddiau tawel' cydnabyddedig eu hystyried yn fwy ffafriol.

Yn gyfnewid am gynllunio a hwyluso digwyddiad, bydd y Cyngor Sir yn darparu parcio am ddim am 5 diwrnod yn unol â chanllawiau a gytunwyd ymlaen llaw.

Yn ystod y digwyddiadau dylid gwneud gwaith monitro i gofnodi niferoedd ymwelwyr a lefelau parcio fel y gellir gwerthuso a chymharu niferoedd ac effaith y digwyddiad.

Cynnig:

- Wedi derbyn cais priodol bydd y Cyngor Sir yn ystyried darparu hyd at bum niwrnod o barcio am ddim ynghanol y dref. Ceir cyfnod eithrio ar gyfer dyddiau parcio am ddim rhwng 1 Rhagfyr a 31 Rhagfyr.
- Rhaid i ddigwyddiadau gydymffurfio â chanllawiau a gytunwyd ymlaen llaw i sicrhau bod marchnata a monitro perthnasol yn digwydd, ac y caiff cefnogaeth y Cyngor ei chydabod yn yr holl ddeunyddiau a gynhyrchir.

Blaenoriaeth 9: Cyfleusterau ar gyfer Pobl ag Anawsterau Symudedd

Mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau parcio digonol a phriodol ar gyfer holl ddefnyddwyr meysydd parcio cyhoeddus. Mae wedi ymrwymo hefyd i ddarparu cymysgedd addas o gyfleusterau parcio priodol ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd.

Cynnig:

- Darparu lefel briodol o leoedd parcio anabl mewn meysydd parcio cyhoeddus yn unol â'r canllawiau parcio cyfredol.
- Darparu lleoedd parcio anabl mewn lleoliadau addas ynghanol trefi, lle'n ymarferol.
- Dylid adolygu a safoni darparu lleoedd parcio ar y stryd ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas yn unol â'r gofynion deddfwriaethol lle y mae hynny'n ymarferol bosib.
- Hyrwyddo darparu mynediad diogel a chyfleus i bobl anabl i ac o feysydd parcio cyhoeddus.

Blaenoriaeth 10: Parcio Coetsis a Cherbydau Eraill

Cydnabyddir fod y diwydiant coetsis yn cynnig cryn hwb economaidd i ganol trefi, ac mae'r farchnad ar gyfer teithiau coetsis wedi'u trefnu a theithiau dydd o longau mordaith, yn tyfu. Mae Caerfyrddin eisoes yn gyrchfan gydnabyddedig ar gylchdaith y farchnad goetsis ac mae cryn botensial i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn mewn ardaloedd eraill.

Mae darparu parciau coetsis ffurfiol ac anffurfiol wedi'u lleoli'n briodol yn hyrwyddo defnydd cynyddol o drafnidiaeth gynaliadwy ac yn helpu denu mwy o deithiau wedi'u trefnu. Mae angen darparu cyfleusterau fel bod y gyrwyr coetsis yn cael y cyfle i stopio a gorffwys cyn paratoi ar gyfer y daith yn ôl.

Gellid defnyddio'r cyfleuster gan fathau eraill o drafnidiaeth pan nad yw coetsis ei angen.

Cynnig:

- Adolygu'r galw am a darparu meysydd parcio coetsis, lle'n briodol, mewn lleoliadau yng nghyffiniau'r trefi mwyaf yn y sir.
- Gwerthuso'r galw am a'r defnydd o'r meysydd parcio coetsis sydd ar gael yn barod ac ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau hynny.
- Ystyried ac adolygu'r prisiau a godir mewn meysydd parcio coetsis ar sail galw, er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleuster yn mynd yn llai deniadol.
- Ystyried defnyddio meysydd parcio coetsis ar gyfer mathau eraill o drafnidiaeth, megis lorïau, carafanau a gweryllfaniau er mwyn darparu cyfleusterau gorffwys cyfleus am gyfnodau penodedig yn ystod y dydd.

Blaenoriaeth 11: Cyfleusterau i Feiciau a Beiciau Modur mewn Meysydd Parcio Cyhoeddus

Bydd darparu cyfleusterau parcio pwrpasol ar gyfer beiciau a beiciau modur mewn meysydd parcio nid yn unig yn annog mathau o drafnidiaeth breifat sy'n llai beichus na'r car ar feysydd parcio, ond bydd hefyd yn rhoi'r neges bod y mathau hyn o drafnidiaeth yn cael yr un parch â'r car preifat.

Er mwyn sicrhau system barcio gwbl deg byddwn yn edrych ar ddarparu lleoedd parcio pwrpasol ar gyfer beicwyr modur lle'n briodol, ynghyd â'r seilwaith talu ac arddangos priodol y gall beicwyr modur ei ddefnyddio.

Cynnig:

- Datblygu lleoedd parcio diogel a chadarn ar gyfer beiciau modur mewn meysydd parcio canol trefi, safleoedd Parcio a Theithio ac mewn lleoliadau, neu ar lwybrau, sy'n denu beicwyr modur yn arbennig.
- Cyflwyno seilwaith fydd yn galluogi beicwyr modur i ddefnyddio cyfleusterau talu ac arddangos.
- Annog mwy o bobl i ddefnyddio Teithio Llesol, hyrwyddo darparu cyfleusterau parcio beiciau diogel a chadarn ynghanol trefi, mewn gorsafoddd rheilffordd a hybiau trafndiaeth allweddol eraill, yn unol â'r Canllaw Dylunio Teithio Llesol.

